# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE**

**Ffôn:Tel: 07929 512741** **cyngorybala@outlook.com**

***Y Maer:*** **Dilys Evans** ***Mayor***

***Ar gyfer cysylltu â'r Maer a Chynghorwyr unigol, defnyddier cynghoryddbala@outlook.com***

# Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref y Bala 2025/2026.

## Blwyddyn y Maer:

Diolch am yr anrhydedd o weithredu fel Maer y Bala am y flwyddyn 2025-2026.

Mis Mai

8/5/25

Cefais gymryd rhan ar ran y Cyngor yn rhoi torch ar y gofgolofn i gofio diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop.

13/5/25

Cwrdd gyda chynghorwyr o Landderfel, Llanycil a Llangywer i weld diweddariad a'r gwaith dwr oedd yn cael ei wneud ar argae Llyn Celyn.

Diddorol iawn, gwaith peirianneg anhygoel, gyda thomennydd o goncrit, oedd yn mynd i gael ei orchuddio, gofynnwyd am amcangyfrif o'r gost ond nid oedd ateb i'w gael gan nad oedd y gwaith wedi i orffen. Nodwyd y rheidrwydd i wneud y gwaith er mwyn diogelwch gyda llifogydd.

Gweld erbyn rwan fod y gwaith wedi orffen a bod y maes parcio wrth yr argae wedi ail agor.

14/5/25

Cafwyd agoriad swyddogol Canolfan Bro Tegid, gyda Elfyn Llwyd Cadeirydd Pum Plwy Penllyn yn ein croesawu.

Agorwyd yn swyddogol gan Mr Trevor Jones a mi roddodd gloc i'r ganolfan fel anrheg.

Fel y gwyddoch Trevor fu yn gyfrifol am edrych ar ôl y ganolfan am flynyddoedd.

15/5/25

Cymerais rhan wrth y gofeb i gofio am y Fuddugoliaeth yn Japan.

Tawel iawn fuodd hi i mi  dros yr haf.

27/10/25

Bum yn beirniadu gwisg ffansi i Glwb Pêl-droed Ieuenctid y Bala. Noson wych gyda chriw da o blant a rhieni, a hoffwn ddiolch iddynt am y gwaith maent yn ei wneud gyda'r plant.

9/11/25

Cawsom wasanaeth Sul y Cofio yn Capel Tegid cyn mynd ymlaen i osod y torchau ar y gofgolofn. Eto hoffwn ddiolch i Matt Nicholson am lanhau y gofeb.

Tawel  i mi dros ddiwedd y flwyddyn a dechrau y flwyddyn newydd ond hwyrach fod y teithiau gefais wedi amharu ar hyn.

Yn ystod y flwyddyn cefais gyfle i:

- Gynrychioli'r Cyngor Tref mewn cyfarfodydd gyda Heddlu Gogledd Sul.
- Gynrychioli'r Cyngor Tref ar bwyllgorau lleol Un Llais Sul.
- Gynrychioli'r Cyngor Tref yn Noson Wobrwyo Y Bala – Yma o Hyd.
- Beirniadu cystadleuaeth Gwisg Ffansi y Park Run.
- Arwain y Cyngor ar Sul y Cofio.
- Mynychu lansiad gwefan Tegid 360.

Dilys Evans.

------------------------------------------

**Y Cyngor:**

Cafwyd newidiadau i aelodaeth y cyngor yn ystod y flwyddyn, gyda chyfethol Tomos Ffrancon, Ceri Dolben Evans a Haydn Roberts yn aelodau o'r cyngor, hyn yn dilyn ymddeoliad Eric Williams, Fiona Hopkins a Clare Macintosh.

**Gweithgareddau'r Cyngor:**

Rydym fel cyngor yn cefnogi cymdeithasau a chlybiau sy'n darparu gweithgareddau i'r ieuenctid a'n hoedolion. Rydym hefyd yn cyfrannu at gostau rhedeg Canolfan Bro Tegid, Theatr Derek Williams a chanolfan Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn sy'n darparu gweithgareddau llesiant i drigolion y dref.

**Cynllun Bioamrywiaeth:** Mae'r Cynllun Bioamrywiaeth wedi ei gyhoeddi ar y wefan. Gan nad yw Cyngor Tref y Bala yn berchen ar unrhyw dir, mae gwaith y cyngor yn y maes yma yn gyfyngedig iawn. Mae'r Cyngor Tref yn ymddiried, ac yn meddu ar berthynas weithiol dda iawn gydag awdurdodau sydd a phrofiad a gwybodaeth am fioamrywiaeth, megis Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru, ac felly yn naturiol, wedi troi atynt am farn a gwybodaeth pan fo'r angen. Er hyn, mae yma yn y Bala niferoedd o ardaloedd a all annog bioamrywiaeth, a gyda ffocws gwleidyddiaeth ryngwladol yn troi at dorri allyriadau carbon, mae'r Cyngor wedi sefydlu Is-bwyllgor Bioamrywiaeth i gynllunio, monitro ac asesu be all y dref ei wneud i annog bioamrywiaeth. Yn ystod y flwyddyn mi fu'r pwyllgor yn brysur yn pannu blodau ac yn harddu'r dref yn gyffredinol.

**Gweithgareddau i wella'r dref:**

Yn dilyn cwblhau Cynllun Creu Lle y Bala (ar y cyd â Chyngor Gwynedd) sy'n adnabod blaenoriaethau datblygu ar gyfer y dref, ac mae rhaglen waith o brosiectau wedi ei datblygu. Yn ystod y flwyddyn fe welwyd gwelliannau sylweddol i Ganolfan Bro Tegid, ac fe gynhaliwyd gweithdy i drafod strategaeth arwyddo i'r dref.

Sicrhawyd grant gan Gyngor Gwynedd i wneud gwelliannau i'r Stryd Fawr, ac fe osodwyd polyn fflag a baner ar y Grin, a raciau beics a bocsys blodau ar y Stryd Fawr.

Cafwyd trafodaethau ar adleoli gwaith celf Canolfan Cywain i safle ger Canolfan Hamdden Byw'n Iach Penllyn, ac mae bwriad i fwrw ymlaen hefo'r gwaith yma yn ystod 2026/2027.

Cafwyd trafodaethau gyda Theatr Derek Williams i drafod ei darpariaeth yn y dref, a thrafodaethau gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri ar drefniadau parcio ger Llyn Tegid.

Cafwyd trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar gyflwr palmentydd y dref.

Bu'r is bwyllgor Nadolig yn brysur yn trefnu Noson Siopa Hwyr ar y cyd a Grŵp Busnesau'r Bala, ac yn addurno'r Stryd Fawr, a oedd yn werth ei gweld yn ystod gŵyl y Nadolig.

**Y Dyfodol:** Mae gan y Cyngor Tref nifer o brosiectau ar y gweill:

- Gwireddu prosiectau Cynllun Creu Lle y dref ar y cyd â Chyngor Gwynedd.
- Parhau i gydweithio gyda Chyngor Gwynedd gyda Chynllun Ardal Ni a Fforwm Adfywio'r Bala a Phenllyn.
- Cydweithio gyda Grŵp Busnesau'r Bala i harddu'r dref a dathlu ei threftadaeth.
- Cwblhau'r gwaith o adleoli gwaith celf Canolfan Cywain.

**Gweithdrefnau'r Cyngor:** Mae Cyngor Tref y Bala yn cyfarfod ar y nos Iau gyntaf o bob mis yng Nghanolfan Henblas yn y Bala.

**Aelodau'r Cyngor:** Mae 12 aelod i'r Cyngor Tref (gyda un sedd wag ar hyn o bryd). Yr aelodau presennol yw:

- Dilys Evans (Maer)
- Moira Mai (Dirprwy Faer)
- Eifion Roberts
- Rhys Evans
- Eluned Jones
- Kenneth Edwards
- Sion McGuinness
- Ceri Dolben Evans
- Haydn Roberts
- Tomos Ffrancon
- Jacqueline Allen.
- Huw Symonds

**Clerc y Cyngor:** Huw Antur Edwards. cyngorybala@outlook.com 07929 512741.

**Gwefan y cyngor:** www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk

**Crynodeb ariannol:** Incwm am y flwyddyn 2025/26: £38,225

Costau am y flwyddyn 2025/26: £37,062

Balansau a gariwyd ymlaen i 2026/27: £29,244

**Cynllun Hyfforddiant:**

- Hyfforddiant cyllid i'r clerc.
- Hyfforddiant Un Llais Cymru yn ôl y galw, yn benodol i aelodau newydd y cyngor.

Dilys Evans / Huw Antur

Mai 2026